# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

**RHAN 7**

CYMUNEDAU A CHYNGHORAU CYMUNED

**PENNOD 7**

GRANTIAU I GYNGHORAU CYMUNED

**129 Pŵer Gweinidogion Cymru i dalu grantiau i gynghorau cymuned**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu grant i gyngor cymuned tuag at wariant a dynnir ganddo neu sydd i'w dynnu ganddo.

(2) Mae swm grant o dan yr adran hon a'r dull o'i dalu i fod yn swm ac yn ddull a benderfynir gan Weinidogion Cymru.

(3) Caniateir talu grant o dan yr adran hon o dan yr amodau hynny a benderfynir gan y person sy'n ei dalu.

(4) Caiff amodau o dan is-adran (3) gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) darpariaeth o ran defnyddio'r grant;

(b) darpariaeth o ran yr amgylchiadau y mae'n rhaid ad-dalu oddi tanynt y grant cyfan neu ran ohono.